



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 717 (Cy.63)

2007 No. 717 (W.63)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

**Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer
(Cymru) 2007**

**The Air Quality Standards (Wales)
Regulations 2007**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

These Regulations apply in relation to Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn yn-

These Regulations-

- (a) gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 96/62/EC ar asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol (OJ Rhif L 296, 21.11.96, t. 55);
- (b) gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/30/EC mewn perthynas â gwerthoedd terfyn ar gyfer sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, mater gronynnol a phlwm mewn aer amgylchynol (OJ Rhif L 163, 29.06.99, t. 41);
- (c) gweithredu Cyfarwyddeb 2000/69/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â gwerthoedd terfyn ar gyfer bensen a charbon monocsid mewn aer amgylchynol (OJ Rhif L 313, 13.12.00, t.12);
- (ch) gweithredu Cyfarwyddeb 2002/3/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas ag osôn mewn aer amgylchynol (OJ Rhif L 67, 09.03.02, t.14);
- (d) gweithredu Cyfarwyddeb 2004/107/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas ag arsenig, cadmiwm, mercuri, nicel a hydrocarbonau aromatig polysycelig mewn aer amgylchynol (OJ Rhif L 23, 26.01.05, t.3);

- (a) implement Council Directive 96/62/EC on ambient air quality assessment and management (OJ No. L 296, 21.11.96, p.55);
- (b) implement Council Directive 1999/30/EC relating to limit values for sulphur dioxide, nitrogen dioxide and oxides of nitrogen, particulate matter and lead in ambient air (OJ No. L 163, 29.06.99, p.41);
- (c) implement Directive 2000/69/EC of the European Parliament and of the Council relating to limit values for benzene and carbon monoxide in ambient air (OJ No. L 313, 13.12.00, p.12);
- (d) implement Directive 2002/3/EC of the European Parliament and of the Council relating to ozone in ambient air (OJ No. L 67, 09.03.02, p.14);
- (e) implement Directive 2004/107/EC of the European Parliament and of the Council relating to arsenic, cadmium, mercury, nickel and polycyclic aromatic hydrocarbons in ambient air (OJ No. L 23, 26.01.05, p.3);

(dd) ymgorffori gofynion a osodwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2001/744/EC yn diwygio Atodiad V i Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/30/EC (OJ Rhif L 278, 23.10.01, t.35) a Chyfarwyddeb 2003/35/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor gan ddarparu ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn perthynas â llunio cynlluniau a rhaglenni penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd ac yn diwygio mewn perthynas â chyfranogiad y cyhoedd a mynediad at gyfiawnder Gyfarwyddebau'r Cyngor 85/337/EEC a 96/61/EC (OJ Rhif L 156, 25.06.03, t.17); ac

(e) newid rheoliad 6 o Reoliadau Safonau Ansawdd Aer 1989 (O.S. 1989/317), Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2002 (O.S. 2002/3183) (Cy.299), Rheoliadau Ansawdd Aer (Osôn) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/1848) (Cy.198) a Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2005 (O.S. 2005/1157) (Cy.74), y maent i gyd yn cael eu dirymu gan reoliad 30 o'r Rheoliadau hyn ac Atodlen 13 iddynt.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys rheoliad 3, sy'n dynodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") fel yr awdurdod cymwys at ddibenion erthygl 3 (gweithredu a chyfrifoldebau) o Gyfarwyddeb y Cyngor 96/62/EC.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol cyrraedd at safonau ansawdd aer mewn perthynas â chrynodiad gwahanol lygryddion mewn aer amgylchynol.

At ddibenion Rhan 2, mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol rannu Cymru yn barthau lle gwneir yr asesu a'r rheoli angenrheidiol o ansawdd aer (rheoliad 5).

Yn unol â rheoliad 6, gosodir gwerthoedd terfyn ar gyfer llygryddion "Grŵp A" (bensen, carbon monocsid, plwm, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, mater gronynnol (PM₁₀) a sylffwr deuocsid); gosodir gwerthoedd targed ar gyfer llygryddion "Grŵp B" (cynnwys arsenig, benzo(a)pyrene, cadmiwm a nicel, neu eu cyfansoddion, o fewn y ffracsiwn PM₁₀); a gosodir gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor ar gyfer osôn.

Mae Pennod 2 o Ran 2 yn gosod y mesurau y mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol eu dilyn er mwyn sicrhau cyrraedd at y safonau perthnasol. Y mesurau sydd eu hangen yn arferol yw'r rhai sydd wedi eu nodi yn rheoliad 7. Mewn perthynas â bensen neu nitrogen deuocsid, lle y mae crynodiadau yn uwch na'r gwerthoedd terfyn ynghyd â'r ffin goddefiant sydd wedi ei dynodi, mae rheoliad 8(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi a gweithredu cynllun gwella. Hefyd mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi a gweithredu cynllun gwella yn sgil rheoliad 8(3) mewn achosion lle y mae crynodiadau osôn yn uwch na'r gwerth targed oni bai

(f) incorporate requirements imposed by Commission Decision 2001/744/EC amending Annex V to Council Directive 1999/30/EC (OJ No. L 278, 23.10.01, p.35) and Directive 2003/35/EC of the European Parliament and of the Council providing for public participation in respect of the drawing-up of certain plans and programmes relating to the environment and amending with regard to public participation and access to justice Council Directives 85/337/EEC and 96/61/EC (OJ No. L 156, 25.06.03, p.17); and

(g) replace regulation 6 of the Air Quality Standards Regulations 1989 (S.I. 1989/317), the Air Quality Limit Values (Wales) Regulations 2002 (S.I. 2002/3183) (W.299), the Air Quality (Ozone) (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/1848) (W.198) and the Air Quality Limit Values (Wales) (Amendment) Regulations 2005 (S.I. 2005/1157) (W.74), all of which are revoked by regulation 30 of, and Schedule 13 to, these Regulations.

Part 1 of these Regulations includes regulation 3, which designates the National Assembly for Wales ("the National Assembly") as the competent authority for the purposes of article 3 (implementation and responsibilities) of Council Directive 96/62/EC.

Part 2 of these Regulations requires the attainment of air quality standards in respect of the concentration of various pollutants in ambient air.

For the purposes of Part 2, the National Assembly is required to divide Wales into zones within which the necessary air quality management and assessment takes place (regulation 5).

In accordance with regulation 6, limit values are imposed for "Group A" pollutants (benzene, carbon monoxide, lead, nitrogen dioxide and oxides of nitrogen, particulate matter (PM₁₀) and sulphur dioxide); target values are imposed for "Group B" pollutants (the content of arsenic, benzo(a)pyrene, cadmium and nickel, or their compounds, within the PM₁₀ fraction); and target values and long-term objectives are imposed for ozone.

Chapter 2 of Part 2 sets out the measures the National Assembly is required to take in order to ensure attainment of the relevant standards. The measures ordinarily required are those set out in regulation 7. In relation to benzene or nitrogen dioxide, where concentrations exceed the limit value plus the margin of tolerance specified, the National Assembly is required by regulation 8(2) to prepare and implement an improvement plan. The National Assembly is also required to prepare and implement an improvement plan by regulation 8(3) in cases where concentrations of ozone exceed the target value unless the National Assembly considers that the target value

bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried na fyddai'r gwerth targed yn gyraeddadwy trwy fesurau cymesur. Yn olaf, mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol weithredu'r mesurau a nodwyd yn y rheoliad hwnnw mewn achosion lle mae crynodiadau o lygryddion Grŵp B yn uwch na'r gwerth targed perthnasol neu mewn achosion lle y mae crynodiadau o osôn yn cydymffurfio â'r gwerth targed ond yn uwch nag amcan hirdymor.

Mae rheoliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau cydymffurfedd â'r gwerthoedd terfyn a'r gwerthoedd targed a, chyn belled â bod y ffactorau a nodwyd yn y rheoliad hwnnw yn caniatáu, yr amcan hirdymor ar gyfer osôn.

Mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi, ac i'r graddau y mae'n ystyried hynny'n angenrheidiol, iddo roi ar waith gynlluniau gweithredu sy'n dangos y mesurau sydd i'w cymryd mewn achosion lle y bo risg o fynd yn uwch nag unrhyw werth terfyn neu trothwyon rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid. Mae'n ofynnol hefyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried paratoi cynlluniau gweithredu lle y bo risg o fynd yn uwch na'r trothwy rhybuddio ar gyfer osôn.

Mae rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol asesu crynodiad llygryddion Grŵp A, llygryddion Grŵp B ac osôn ym mhob parth.

Mae rheoliadau 13 i 16 yn rhagnodi'r dulliau asesu sy'n ofynnol neu a ganiateir (yn ôl yr achos) a'r gofynion manwl mewn perthynas â phob dull (er enghraifft, gofynion ynglyn â phwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog).

Yn Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn, mae rheoliadau 17 i 19 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol fonitro neu fesur, yn y drefn honno, PM_{2.5}, rhagsylweddion osôn a hydrocarbonau aromatig polysyclig penodol. Mae Rheoliad 20 yn ei gwneud hi'n ofynnol cymryd y mesuriadau dangosol o'r crynodiad a'r dyddodiad o lygryddion Grŵp B, hydrocarbonau aromatig polysyclig a mercuri.

Yn Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn, mae rheoliadau 21 i 25 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ledaenu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd, gan gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau perthnasol y cyhoedd. Mae rheoliad 26 yn ei gwneud yn ofynnol cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer osôn ac mae rheoliad 27 yn mynnu bod cynlluniau gweithredu a chynlluniau gwella, a gwybodaeth ynglyn a'u gweithredu ar gael. Mae rheoliad 28 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau y caiff y cyhoedd gyfrannu at ddatblygu, addasu ac adolygu cynlluniau gwella.

Yn Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn, mae rheoliad 29 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gael a chasglu data ac mae rheoliad 30 yn darparu ar gyfer diddymu Rheoliadau sy'n cael eu disodli gan y Rheoliadau hyn.

would not be attainable through proportionate measures. Finally, regulation 9 requires the National Assembly to take the measures specified in that regulation in cases where concentrations of Group B pollutants exceed the relevant target value or in cases where concentrations of ozone comply with the target value but exceed a long-term objective.

Regulation 10 requires the National Assembly to maintain compliance with the limit values and target values and, as far as the factors specified in that regulation permit, the long-term objective for ozone.

Regulation 11 requires the National Assembly to prepare and, to the extent it considers necessary, implement action plans which indicate the measures to be taken in cases where there is a risk that any limit value or the alert thresholds for nitrogen dioxide and sulphur dioxide will be exceeded. The National Assembly is also required to consider the preparation of action plans where there is a risk that the alert threshold for ozone will be exceeded.

Regulation 12 requires the National Assembly to assess the concentration of Group A pollutants, Group B pollutants and ozone within each zone.

Regulations 13 to 16 prescribe the assessment methods which are required or permitted (as the case may be) and the detailed requirements in relation to each method (for instance, requirements as to sampling points for fixed measurement).

In Part 3 of these Regulations, regulations 17 to 19 require the National Assembly to monitor or measure, respectively, PM_{2.5}, ozone precursor substances and certain polycyclic aromatic hydrocarbons. Regulation 20 requires the taking of indicative measurements of the concentration and deposition of Group B pollutants, polycyclic aromatic hydrocarbons and mercury.

In Part 4 of these Regulations, regulations 21 to 25 require the National Assembly to disseminate up-to-date information to the public, including organisations representing relevant public interests. Regulation 26 requires the production of an annual report for ozone and regulation 27 requires action and improvement plans, and information as to their implementation, to be made available. Regulation 28 requires the National Assembly to ensure that the public can contribute to the development, modification and review of improvement plans.

In Part 5 of these Regulations, regulation 29 requires the National Assembly to obtain and collate data and regulation 30 provides for the repeal of Regulations that are superseded by these Regulations.

2007 Rhif 717 (Cy.63)

2007 No. 717 (W.63)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

**Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer
(Cymru) 2007**

**The Air Quality Standards (Wales)
Regulations 2007**

Wedi'u gwneud 6 Mawrth 2007

Made 6 March 2007

Yn dod I rym 15 Mawrth 2007

Coming into force 15 March 2007

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Cyffredinol

General

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Diffiniadau
3. Dynodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Title, commencement and application
2. Definitions
3. Designation of National Assembly for Wales

RHAN 2

PART 2

Llygryddion Grŵp A a Grŵp B ac osôn

Group A and Group B pollutants and ozone

PENNOD 1

CHAPTER 1

Safonau ansawdd aer

Air quality standards

4. Rhagarweiniol a chymhwyso
5. Parthau a chrynoadau
6. Safonau ansawdd aer

4. Preliminary and application
5. Zones and agglomerations
6. Air quality standards

PENNOD 2

CHAPTER 2

Cyrraedd safonau ansawdd aer

Attainment of air quality standards

7. Mesurau cyrhaeddiad cyffredinol
8. Cynlluniau gwella
9. Mesurau gwella eraill

7. General attainment measures
8. Improvement plans
9. Other improvement measures

PENNOD 3

Cynnal safonau ansawdd aer a chynlluniau gweithredu

10. Cynnal safonau ansawdd aer
11. Cynlluniau gweithredu

PENNOD 4

Asesu

12. Dyletswydd i asesu ansawdd aer
13. Dulliau asesu
14. Mesuriadau sefydlog
15. Pwyntiau samplu
16. Gofynion asesu eraill

RHAN 3

Llygryddion eraill a monitro'r cefndir

17. Mesuriadau PM_{2.5}
18. Mesuriadau rhagsylweddion osôn
19. Monitro hydrocarbonau aromatig polysycleg
20. Monitro'r cefndir

RHAN 4

Gwybodaeth i'r cyhoedd a'u cyfranogiad

21. Gofynion cyffredinol
22. Gwybodaeth ynglyn â pharthau
23. Gwybodaeth ynglyn â chryndiadau
24. Gwybodaeth ynglyn â thorri trothwy rhybuddio neu drothwy gwybodaeth
25. Gwybodaeth ynglyn â thorri safonau ansawdd aer
26. Adroddiad blynyddol osôn
27. Gwybodaeth ynglyn â chynlluniau gweithredu a gwella
28. Cyfranogiad y cyhoedd mewn cynlluniau gwella

CHAPTER 3

Maintenance of air quality standards and action plans

10. Maintenance of air quality standards
11. Action plans

CHAPTER 4

Assessment

12. Duty to assess air quality
13. Assessment methods
14. Fixed measurement
15. Sampling points
16. Other assessment requirements

PART 3

Other pollutants and background monitoring

17. Measurement of PM_{2.5}
18. Measurement of ozone precursor substances
19. Monitoring of polycyclic aromatic hydrocarbons
20. Background monitoring

PART 4

Public information and participation

21. General requirements
22. Information regarding zones
23. Information on concentrations
24. Information on breach of alert or information threshold
25. Information on breach of air quality standards
26. Ozone annual report
27. Information on action and improvement plans
28. Public participation in improvement plans

RHAN 5

PART 5

Darpariaethau terfynol ac amrywiol

Final and miscellaneous provisions

29. Casglu gwybodaeth etc.

29. Collation of information etc.

30. Dirymiadau

30. Revocations

ATODLEN 1	-	Safonau ansawdd aer	SCHEDULE 1 -	Air quality standards
RHAN 1	-	Gwerthoedd terfyn ar gyfer llygryddion Grŵp A	PART 1 -	Limit values for Group A pollutants
RHAN 2	-	Ffiniau goddefiant ar gyfer bensen a nitrogen deuocsid	PART 2 -	Margins of tolerance for benzene and nitrogen dioxide
RHAN 3	-	Gwerthoedd targed ar gyfer llygryddion Grŵp B	PART 3 -	Target values for Group B pollutants
RHAN 4	-	Gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor ar gyfer osôn	PART 4 -	Target values and long-term objectives for ozone
ATODLEN 2	-	Gwybodaeth i'w chynnwys mewn Cynllun Gwella	SCHEDULE 2 -	Information to be included in an Improvement Plan
ATODLEN 3	-	Trothwyon rhybuddio a gwybodaeth	SCHEDULE 3 -	Alert and information thresholds
RHAN 1	-	Trothwyon rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid	PART 1 -	Alert thresholds for nitrogen dioxide and sulphur dioxide
RHAN 2	-	Trothwyon rhybuddio a gwybodaeth ar gyfer osôn	PART 2 -	Alert and information thresholds for ozone
ATODLEN 4	-	Trothwyon asesu	SCHEDULE 4 -	Assessment thresholds
RHAN 1	-	Trothwyon asesu ar gyfer llygryddion Grŵp A	PART 1 -	Assessment thresholds for Group A pollutants
RHAN 2	-	Trothwyon asesu ar gyfer llygryddion Grŵp B	PART 2 -	Assessment thresholds for Group B pollutants
RHAN 3	-	Penderfynu pan fydd gormodiant uwchlaw'r trothwyon asesu	PART 3 -	Determination of when assessment thresholds are exceeded
ATODLEN 5	-	Lleoli pwyntiau samplu	SCHEDULE 5 -	Location of sampling points
RHAN 1	-	Lleoli ar y raddfa facro ar gyfer llygryddion Grŵp A	PART 1 -	Macroscale siting for Group A pollutants
RHAN 2	-	Lleoli ar y raddfa facro ar gyfer llygryddion Grŵp B	PART 2 -	Macroscale siting for Group B pollutants
RHAN 3	-	Lleoli ar y raddfa facro ar gyfer osôn	PART 3 -	Macroscale siting for ozone

RHAN 4	-	Lleoli ar y raddfa facro	PART 4 -	Microscale siting
RHAN 5	-	Dogfennaeth ac adolygu dewis safle	PART 5 -	Documentation and review of site selection
ATODLEN 6	-	Isafsymiau'r pwyntiau samplu	SCHEDULE 6 -	Minimum number of sampling points
RHAN 1	-	Llygryddion Grŵp A: gwerthoedd terfyn yn seiliedig ar iechyd pobl a throthwyon rhybuddio	PART 1 -	Group A pollutants: human health-based limit values and alert thresholds
RHAN 2	-	Llygryddion Grŵp A: gwerthoedd terfyn ar gyfer diogelu ecosystemau neu lystyfiant	PART 2 -	Group A pollutants: limit values for the protection of ecosystems or vegetation
RHAN 3	-	Llygryddion Grŵp B	PART 3 -	Group B pollutants
RHAN 4	-	Osôn	PART 4 -	Ozone
RHAN 5	-	Osôn: lleiafswm y pwyntiau samplu ar gyfer mesuriadau sefydlog y parthau sy'n cyrraedd yr amcanion hirdymor	PART 5 -	Ozone: minimum number of sampling points for fixed measurements for zones attaining the long-term objectives
ATODLEN 7	-	Gofynion ar gyfer dulliau asesu ac eithrio mesuriadau sefydlog	SCHEDULE 7 -	Requirements for assessment methods other than fixed measurement
RHAN 1	-	Llygryddion Grŵp A	PART 1 -	Group A pollutants
RHAN 2	-	Llygryddion Grŵp B	PART 2 -	Group B pollutants
RHAN 3	-	Osôn a rhagsylweddion osôn	PART 3 -	Ozone and ozone precursor substances
ATODLEN 8	-	Amcanion ansawdd data	SCHEDULE 8 -	Data quality objectives
RHAN 1	-	Llygryddion Grŵp A a PM _{2.5}	PART 1 -	Group A pollutants and PM _{2.5}
RHAN 2	-	Llygryddion Grŵp B, hydrocarbonau aromatig polysyglig a mercuri nwyol llwyr	PART 2 -	Group B pollutants, polycyclic aromatic hydrocarbons and total gaseous mercury
RHAN 3	-	Osôn a nitrogen deuocsid yn cael eu hasesu mewn pwyntiau samplu osôn	PART 3 -	Ozone and nitrogen dioxide assessed at ozone sampling points
ATODLEN 9	-	Dulliau cyfeirio	SCHEDULE 9 -	Reference methods
RHAN 1	-	Llygryddion Grŵp A	PART 1 -	Group A pollutants
RHAN 2	-	Llygryddion Grŵp B mewn aer amgylchynol	PART 2 -	Group B pollutants in ambient air
RHAN 3	-	Osôn	PART 3 -	Ozone
RHAN 4	-	Dulliau cyfeirio eraill	PART 4 -	Other reference methods
ATODLEN 10	-	Sylweddau rhagsylweddyn osôn	SCHEDULE 10-	Ozone precursor substances
ATODLEN 11	-	Gwybodaeth i'r cyhoedd pan fydd	SCHEDULE 11-	Public information where alert or

		gormodiant uwchlaw'r trothwyon rhybuddio neu wybodaeth		information thresholds are exceeded
RHAN 1	-	Trothwyon rhybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid	PART 1 -	Alert thresholds for nitrogen dioxide and sulphur dioxide
RHAN 2	-	Trothwyon rhybuddio a gwybodaeth ar gyfer osôn	PART 2 -	Alert and information thresholds for ozone
ATODLEN 12	-	Casglu gwybodaeth a meini prawf ar gyfer cydgasglu data a chyfrifo paramedrau ystadegol	SCHEDULE 12-	Collation of information and criteria for aggregating data and calculating statistical parameters
RHAN 1	-	Gwybodaeth i'w chyflwyno i'r Comisiwn	PART 1 -	Information to be submitted to the Commission
RHAN 2	-	Meini prawf ar gyfer agregu data a chyfrifo paramedrau ystadegol	PART 2 -	Criteria for aggregating data and calculating statistical parameters
ATODLEN 13	-	Dirymiadau	SCHEDULE 13-	Revocations

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), wedi ei ddynodi(1) i arfer pwerau o dan adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(2) o ran mesurau sy'n ymwneud ag asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol a chydymffurfedd â gwerthoedd terfyn ansawdd aer, gwerthoedd targed ac amcanion, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales ("the National Assembly"), being designated(1) to exercise powers under section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to measures relating to the assessment and management of ambient air quality and compliance with air quality limit values, target values and objectives, makes the following Regulations:

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Mawrth 2007.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diffiniadau

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "aer amgylchynol" ("*ambient air*") yw aer y tu allan yn y troposffer, heb gynnwys gweithleoedd;

PART 1

General

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the Air Quality Standards (Wales) Regulations 2007.

(2) These Regulations come into force on 15 March 2007.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

Definitions

2.-(1) In these Regulations-

"action plan" ("*cynllun gweithredu*") means an action plan required by regulation 11;

(1) O.S. 2000/2812.

(2) 1972 c.68.

(1) S.I. 2000/2812.

(2) 1972 c.68.

ystyr "amcan hirdymor" ("*long-term objective*") yw'r mwyafswm crynodiad osôn sydd wedi ei nodi yn Rhan 4 o Atodlen 1;

ystyr "asesu" ("*assessment*") yw unrhyw ddull a ddefnyddir i fesur, cyfrifo, rhagfynegi neu amcangyfrif crynodiad llygrydd;

mae i "crynhoad" ("*agglomeration*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 5(2);

ystyr "crynodiad" ("*concentration*") yw-

- (a) ar gyfer llygryddion ac eithrio llygryddion Grŵp B, crynodiad y llygrydd perthnasol mewn aer amgylchynol; neu
- (b) ar gyfer llygryddion Grŵp B, cyfanswm cynnwys y llygrydd perthnasol yn y ffraciwn PM₁₀ mewn aer amgylchynol,

ac yn y ddau achos, mae cyfeiriad at grynodiad yn gyfeiriad at grynodiad a aseswyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r Rheoliadau hyn;

ystyr "cynllun gweithredu" ("*action plan*") yw cynllun gweithredu sy'n ofynnol gan reoliad 11;

ystyr "cynllun gwella" ("*improvement plan*") yw cynllun gwella sy'n ofynnol gan reoliad 8;

ystyr "dyddiad cyrhaeddiad" ("*attainment date*") yw'r dyddiad-

- (a) y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn; neu
- (b) y dylid cyrraedd y gwerth targed, i'r graddau y bo hynny'n bosibl;

ystyr "ffin goddefaint" ("*margin of tolerance*") yw'r maint a ddynodir yn Rhan 2 o Atodlen 1 y gellir mynd yn uwch na'r gwerth terfyn;

rhaid dehongli "gorsaf cefndir gwledig" ("*rural background station*") yn unol â Rhan 3 o Atodlen 5;

ystyr "gwerth targed" ("*target value*") yw'r crynodiad uchaf o lygrydd Grŵp B fel y nodwyd yn Rhan 3 o Atodlen 1 neu osôn fel y nodwyd yn Rhan 4 o'r Atodlen honno;

ystyr "gwerth terfyn" ("*limit value*") yw'r mwyafswm crynodiad a ganiateir o lygrydd Grŵp A sydd wedi ei nodi yn Rhan 1 o Atodlen 1;

ystyr "hydrocarbonau aromatig polysyclogig" ("*polycyclic aromatic hydrocarbons*") yw-

- (a) y cyfansoddion sydd wedi eu rhestru yn rheoliad 19(2); a
- (b) unrhyw hydrocarbonau aromatig polysyclogig eraill y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn dewis eu monitro o dan reoliad 19(1)(b);

ystyr "llygrydd" ("*pollutant*") yw -

- (a) unrhyw lygrydd Grŵp A;
- (b) unrhyw lygrydd Grŵp B;

"agglomeration" ("*crynhoad*") has the meaning given in regulation 5(2);

"air quality standards" ("*safonau ansawdd aer*") means limit values, target values and long-term objectives;

"alert threshold" ("*trothwy rhybuddio*") means an alert threshold set out in Schedule 3;

"ambient air" ("*aer amgylchynol*") means outdoor air in the troposphere, excluding work places;

"assessment" ("*asesu*") means any method used to measure, calculate, predict or estimate the concentration of a pollutant;

"attainment date" ("*dyddiad cyrhaeddiad*") means a date by which-

- (a) a limit value is required to be attained; or
- (b) a target value should be attained, insofar as this is possible;

"concentration" ("*crynodiad*") means-

- (a) for pollutants other than Group B pollutants, the concentration of the relevant pollutant in ambient air; or
- (b) for Group B pollutants, the total content of the relevant pollutant in the PM₁₀ fraction in ambient air,

and, in both cases, a reference to a concentration is to a concentration assessed by the National Assembly in accordance with these Regulations;

"Group A pollutants" ("*llygryddion Grŵp A*") means benzene, carbon monoxide, lead, nitrogen dioxide and oxides of nitrogen, PM₁₀ and sulphur dioxide;

"Group B pollutants" ("*llygryddion Grŵp B*") means arsenic, benzo(a)pyrene, cadmium and nickel and their compounds;

"improvement plan" ("*cynllun gwella*") means an improvement plan required by regulation 8;

"information threshold" ("*trothwy gwybodaeth*") means the information threshold set out in Part 2 of Schedule 3;

"limit value" ("*gwerth terfyn*") means a maximum permitted concentration of a Group A pollutant set out in Part 1 of Schedule 1;

"long-term objective" ("*amcan hirdymor*") means a maximum concentration of ozone set out in Part 4 of Schedule 1;

"margin of tolerance" ("*ffin goddefaint*") means an amount specified in Part 2 of Schedule 1 by which a limit value may be exceeded;

"oxides of nitrogen" ("*ocsidau nitrogen*") means the sum of nitric oxide and nitrogen dioxide added as

(c) osôn; neu

(ch) unrhyw llygrydd y mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn berthnasol iddo;

ystyr "llygryddion Grŵp A" ("*Group A pollutants*") yw bensen, carbon monocsid, plwm, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, PM₁₀ a sylffwr deuocsid;

ystyr "llygryddion Grŵp B" ("*Group B pollutants*") yw arsenig, benso(a)pyren, cadmiwm a nicel a'u cyfansoddion;

ystyr "ocsidau nitrogen" ("*oxides of nitrogen*") yw'r swm o ocsid nitrig a nitrogen deuocsid a ychwanegir fel rhannau y biliwn ac a fynegir fel nitrogen deuocsid mewn microgramau y metr ciwbig;

ystyr "parth" ("*zone*") yw un o'r rhannau o'r diriogaeth y rhannwyd Cymru iddynt gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 5(1) at ddibenion Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn; ac mae cyfeiriadau at barth, oni bai bod y cyd-destun yn dangos fel arall, yn cynnwys crynhoed.

ystyr "PM_{2.5}" yw mater gronynnol sy'n llwyddo i fynd drwy fewnfa dethol maint gyda therfyn effeithlonrwydd o 50% pan fydd y diamedr erodynemig yn 2.5µm;

ystyr "PM₁₀" yw mater gronynnol sy'n llwyddo i fynd drwy fewnfa dethol maint gyda therfyn effeithlonrwydd o 50% pan fydd y diamedr erodynemig yn 10µm, ac mewn perthynas â hyn, o ran asesu llygryddion Grŵp B, mae'r fewnfa wedi ei diffinio yn EN 12341;

ystyr "rhagsylweddau osôn" ("*ozone precursor substances*") yw sylweddau sy'n cyfrannu at ffurfio osôn ar lefel y ddaear, fel y cyfeirir atynt gan reoliad 18(1);

ystyr "safonau ansawdd aer" ("*air quality standards*") yw gwerthoedd terfyn, gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor;

ystyr "trothwy gwybodaeth" ("*information threshold*") yw'r trothwy gwybodaeth sydd wedi ei nodi yn Rhan 2 o Atodlen 3;

ystyr "trothwy rhybuddio" ("*alert threshold*") yw trothwy rhybuddio a nodwyd yn Atodlen 3.

parts per billion and expressed as nitrogen dioxide in microgrammes per cubic metre;

"ozone precursor substances" ("*rhagsylweddau osôn*") means substances which contribute to the formation of ground level ozone, as referred to by regulation 18(1);

"PM_{2.5}" means particulate matter which passes through a size-selective inlet with a 50% efficiency cut-off at 2.5µm aerodynamic diameter;

"PM₁₀" means particulate matter which passes through a size-selective inlet with a 50% efficiency cut-off at 10µm aerodynamic diameter, in relation to which, in the case of assessments of Group B pollutants, the inlet is defined in EN 12341;

"pollutant" ("*llygrydd*") means-

(a) any Group A pollutant;

(b) any Group B pollutant;

(c) ozone; or

(d) any pollutant to which Part 3 of these Regulations applies;

"polycyclic aromatic hydrocarbons" ("*hydrocarbonau aromatig polysyclig*") means-

(a) those compounds listed at regulation 19(2); and

(b) any other polycyclic aromatic hydrocarbons the National Assembly chooses to monitor under regulation 19(1)(b);

"rural background station" ("*gorsaf cefndir gwledig*") is to be interpreted in accordance with Part 3 of Schedule 5;

"target value" ("*gwerth targed*") means a maximum concentration of a Group B pollutant as set out in Part 3 of Schedule 1 or ozone as set out in Part 4 of that Schedule; and

"zone" ("*parth*") means one of the parts of the territory into which the National Assembly has divided Wales under regulation 5(1) for the purposes of Part 2 of these Regulations; and references to a zone, unless the context indicates otherwise, include an agglomeration.

(2) Mae i'r geiriau a dywediadau eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr ystyr a roddir iddynt yn y Cyfarwydddebau canlynol -

- (a) Cyfarwydddeb y Cyngor 96/62/EC ar asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol(1);
- (b) Cyfarwydddeb y Cyngor 1999/30/EC yn ymwneud â gwerthoedd terfyn ar gyfer sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, mater gronynnol a phlwm mewn aer amgylchynol(2);
- (c) Cyfarwydddeb 2000/69/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor yn ymwneud â gwerthoedd terfyn ar gyfer bensen a charbon monocsid mewn aer amgylchynol(3);
- (ch) Cyfarwydddeb 2002/3/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor yn ymwneud ag osôn mewn aer amgylchynol(4); a
- (d) Cyfarwydddeb 2004/107/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor yn ymwneud ag arsenig, cadmiwm, mercwri, nicel a hydrocarbonau aromatig polysyclig mewn aer amgylchynol(5).

Dynodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ei ddynodi fel yr awdurdod cymwys at ddibenion erthygl 3 (gweithredu a chyfrifoldebau) o Gyfarwydddeb y Cyngor 96/62/EC.

RHAN 2

Llygryddion Grŵp A a Grŵp B ac osôn

PENNOD 1

Safonau ansawdd aer

Rhagarweiniad a chymhwysiad

4.-(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys mewn perthynas â'r llygryddion canlynol-

- (a) Llygryddion Grŵp A;
- (b) Llygryddion Grŵp B; ac
- (c) osôn.

(1) OJ Rhif L 296, 21.11.96, t. 55.

(2) OJ Rhif L 163, 29.06.99, t. 41.

(3) OJ Rhif L 313, 13.12.00, t. 12.

(4) OJ Rhif L 67, 09.03.02, t.14.

(5) OJ Rhif L 23, 26.01.05, t. 3.

(2) Other words and expressions used in these Regulations have the same meaning as in the following Directives-

- (a) Council Directive 96/62/EC on ambient air quality assessment and management(1);
- (b) Council Directive 1999/30/EC relating to limit values for sulphur dioxide, nitrogen dioxide and oxides of nitrogen, particulate matter and lead in ambient air(2);
- (c) Directive 2000/69/EC of the European Parliament and of the Council relating to limit values for benzene and carbon monoxide in ambient air(3);
- (d) Directive 2002/3/EC of the European Parliament and of the Council relating to ozone in ambient air(4); and
- (e) Directive 2004/107/EC of the European Parliament and of the Council relating to arsenic, cadmium, mercury, nickel and polycyclic aromatic hydrocarbons in ambient air(5).

Designation of National Assembly for Wales

3. The National Assembly is designated as the competent authority for the purposes of Article 3 (implementation and responsibilities) of Council Directive 96/62/EC.

PART 2

Group A and Group B pollutants and ozone

CHAPTER 1

Air quality standards

Preliminary and application

4.-(1) This Part applies in respect of the following pollutants-

- (a) Group A pollutants;
- (b) Group B pollutants; and
- (c) ozone.

(1) OJ No L 296, 21.11.96, p.55.

(2) OJ No L 163, 29.06.99, p.41.

(3) OJ No L 313, 13.12.00, p.12.

(4) OJ No L 67, 09.03.02, p.14.

(5) OJ No L 23, 26.01.05, p.3.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod yr holl fesurau a gymerir o dan Pennod 2 neu 3 o'r Rhan hon-

- (a) yn rhoi ystyriaeth i ddull integredig o weithredu mewn perthynas â diogelu aer, dŵr a phridd; a
- (b) ddim yn cael unrhyw effaith negyddol ar
 - (i) unrhyw Aelod-wladwriaeth arall, neu
 - (ii) unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig.

Parthau a chrynodau

5.-(1) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, at ddibenion y Rhan hon, rannu tiriogaeth Cymru yn barthau.

(2) Bydd parth yn cael ei ddsbarthu fel crynhoad at ddibenion y Rhan hon lle-

- (a) mae'n cynnwys poblogaeth o dros 250,000 o breswylwyr; neu
- (b) mewn unrhyw achos arall, mae ganddo ddwysedd poblogaeth y km² y mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn y gellir cyfiawnhau dosbarthiad o'r fath.

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol sefydlu gwahanol barthau ar gyfer gwahanol lygryddion lle y mae'n barnu bod hynny'n briodol.

Safonau ansawdd aer

6.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (4), mae'n ofynnol i'r safonau ansawdd aer canlynol a nodwyd yn Atodlen 1 gael eu cyrraedd ym mhob parth-

- (a) ar gyfer llygryddion Grŵp A, y gwerthoedd terfyn sydd wedi eu nodi yn Rhan 1 o'r Atodlen honno;
- (b) ar gyfer llygryddion Grŵp B, y gwerthoedd targed sydd wedi eu nodi yn Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac
- (c) ar gyfer osôn, y gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor sydd wedi eu nodi yn Rhan 4 o'r Atodlen honno.

(2) Y dyddiad cyrhaeddiad ar gyfer gwerth terfyn neu darged yw-

- (a) dyddiad cyrhaeddiad a nodwyd ar gyfer y llygrydd perthnasol yn Atodlen 1; neu
- (b) lle nad oes dyddiad cyrhaeddiad wedi ei nodi, y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

(3) Mae'r amcanion hirdymor i'w cyflawni yn yr hirdymor, i'r graddau y gellir cyflawni'r amcanion hyn trwy'r mesurau sy'n ofynnol gan reoliad 7(3)(b).

(4) Yn achos bensen a nitrogen deuocsid, mae'r ffiniau goddefaint a nodwyd yn Rhan 2 o Atodlen 1 yn gymwys yn y cyfnodau a bennir.

(2) The National Assembly must ensure that all measures taken under Chapter 2 or 3 of this Part-

- (a) take into account an integrated approach to the protection of air, water and soil; and
- (b) have no significant negative effects on-
 - (i) any other member State, or
 - (ii) any other part of the United Kingdom.

Zones and agglomerations

5.-(1) The National Assembly must, for the purposes of this Part, divide the territory of Wales into zones.

(2) A zone is to be classified as an agglomeration for the purposes of this Part where-

- (a) it comprises a population in excess of 250,000 inhabitants; or
- (b) in any other case, it has a population density per km² for which the National Assembly considers that such a classification is justified.

(3) The National Assembly may establish different zones for different pollutants where it considers it appropriate.

Air quality standards

6.-(1) Subject to paragraphs (2) to (4), the following air quality standards specified in Schedule 1 are required to be attained within each zone-

- (a) for Group A pollutants, the limit values set out in Part 1 of that Schedule;
- (b) for Group B pollutants, the target values set out in Part 3 of that Schedule; and
- (c) for ozone, the target values and long-term objectives set out in Part 4 of that Schedule.

(2) The attainment date for a limit or target value is-

- (a) the attainment date specified for the relevant pollutant in Schedule 1; or
- (b) where no attainment date is specified, the date on which these Regulations come into force.

(3) The long-term objectives are to be attained in the long term, to the extent these objectives are achievable through the measures required by regulation 7(3)(b).

(4) In the case of benzene and nitrogen dioxide, the margins of tolerance set out in Part 2 of Schedule 1 apply within the periods specified.

Cyrraedd safonau ansawdd aer

Attainment of air quality standards

Mesurau cyrraedd cyffredinol

7.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd y mesurau angenrheidiol i sicrhau bod crynoddau pob llygrydd, ym mhob parth, yn cyrraedd y safonau ansawdd aer sy'n ofynnol gan reoliad 6.

(2) Y mesurau angenrheidiol mewn perthynas â llygryddion Grŵp B yw-

- (a) Mesurau nad ydynt yn golygu costau anghyfartal; a
- (b) i'r graddau bod crynoddau o'r llygryddion perthnasol yn codi o ganlyniad i ollyngiadau o weithfeydd y mae Cyfarwyddeb y Cyngor 96/61/EC ynglyn ag atal a rheoli llygredd integredig⁽¹⁾ yn gymwys, defnyddio'r dulliau gorau sydd ar gael i atal llygredd o'r gweithfeydd hynny yn unol ag erthygl 3(a) o'r Gyfarwyddeb honno⁽²⁾.

(3) Y mesurau angenrheidiol mewn perthynas ag osôn yw'r mesurau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn barnu eu bod -

- (a) yn gymesur, yn achos y gwerthoedd targed yn ogystal â'r amcanion hirdymor; a
- (b) yn gost effeithiol, yn achos amcanion hirdymor.

Cynlluniau gwella

8.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â phob parth lle-

- (a) cyn y dyddiad cyrhaeddiad, mae crynoddau o bensen neu nitrogen deuocsid yn uwch na'r gwerth terfyn a'r ffin goddefaint sy'n gymwys; neu
- (b) mae crynoddau osôn yn uwch na'r gwerth targed.

(2) Pan fo paragraff (1)(a) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi a gweithredu cynllun gwella mewn perthynas â'r llygrydd dan sylw neu, os cyflawnir yr amod a bennir o ran y ddau llygrydd, mewn perthynas â'r ddau lygrydd hynny.

(1) OJ Rhif L 257, 10.10.96, t.26.

(2) Gweithredir y Gyfarwyddeb gan Reoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000 (O.S. 2000/1973 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/503, 2002/275, 2002/1702, 2003/1699, 2003/3296, 2004/3276, 2005/1448 a 2006/2802 (Cy.241)).

General attainment measures

7.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3), the National Assembly must take the necessary measures to ensure that, within each zone, concentrations of each pollutant attain the air quality standards required by regulation 6.

(2) The necessary measures in relation to Group B pollutants are-

- (a) measures not entailing disproportionate costs; and
- (b) insofar as concentrations of the relevant pollutants arise as a result of emissions from installations to which Council Directive 96/61/EC concerning integrated pollution prevention and control⁽¹⁾ applies, the application of best available techniques to prevent pollution from those installations in accordance with article 3(a) of that Directive⁽²⁾.

(3) The necessary measures in relation to ozone are measures the National Assembly considers to be-

- (a) in the case of both the target values and long-term objectives, proportionate; and
- (b) in the case of a long-term objectives, cost-effective.

Improvement plans

8.-(1) This regulation applies in respect of each zone in which-

- (a) prior to the attainment date, concentrations of benzene or nitrogen dioxide exceed a limit value plus the applicable margin of tolerance; or
- (b) concentrations of ozone exceed a target value.

(2) Where paragraph (1)(a) applies, the National Assembly must prepare and implement an improvement plan in respect of the pollutant in question or, if the condition specified is met in relation to both pollutants, in respect of both those pollutants.

(1) OJ No L 257, 10.10.96, p.26.

(2) The Directive is implemented by the Pollution Prevention and Control (England and Wales) Regulations 2000 (S.I. 2000/1973 as amended by S.I. 2001/503, 2002/275, 2002/1702, 2003/1699, 2003/3296, 2004/3276, 2005/1448 and 2006/2802 (W.241)).

(3) Pan fo paragraff (1)(b) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi a gweithredu cynllun gwella mewn perthynas ag osôn oni bai ei fod yn barnu na ellid cyrraedd y gwerth targed trwy fesurau cymesur.

(4) Rhaid i gynllun gwella gynnwys yr wybodaeth a nodwyd yn Atodlen 2.

(5) Pan y bo'n ofynnol paratoi a gweithredu cynllun gwella o dan baragraffau (2) a (3), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, lle y mae'n barnu bod hynny'n briodol, baratoi a gweithredu cynllun gwella integredig sy'n cwmpasu pob un o'r llygryddion perthnasol.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, caiff cynllun gwella gynnwys naill ai cynllun neu raglen y mae'n rhaid iddynt, ym mhob achos, anelu at gyrraedd y gwerth terfyn neu darged yn y parth perthnasol erbyn y dyddiad cyrhaeddiad ar gyfer y llygrydd dan sylw.

Mesurau gwella eraill

9.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bob parth lle y mae crynodiadau o-

- (a) un neu fwy o lygryddion Grŵp B yn uwch na'r gwerth targed perthnasol; neu
- (b) osôn yn gyfartal neu'n is na'r gwerthoedd targed, ond yn uwch na'r amcan hirdymor.

(2) Pan fo paragraff (1)(a) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol-

- (a) adnabod achos y llygredd a phrif ffynonellau yr allyriannau; ac
- (b) mewn perthynas â'r llygryddion dan sylw, sicrhau bod y mesurau sy'n ofynnol gan reoliad 7(2) yn cael eu cyfeirio yn benodol at ffynonellau'r allyriannau a ddynodwyd.

(3) Pan fo paragraff (1)(b) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi a gweithredu mesurau y mae'n ystyried eu bod yn rhai cost effeithiol gyda'r bwriad o gyrraedd yr amcan hirdymor.

(4) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y mesurau sy'n ofynnol ym mharagraff (3) yn gyson ag unrhyw gynllun gwella a baratowyd ar gyfer osôn o dan reoliad 8(3).

(3) Where paragraph (1)(b) applies, the National Assembly must prepare and implement an improvement plan in respect of ozone unless it considers that the target value would not be attainable through proportionate measures.

(4) An improvement plan must include the information specified in Schedule 2.

(5) Where an improvement plan is required to be prepared and implemented under both paragraphs (2) and (3), the National Assembly must, where it considers it appropriate, prepare and implement an integrated improvement plan covering all of the pollutants concerned.

(6) For the purposes of this regulation, an improvement plan may comprise either a plan or a programme which, in either case, must have the objective of attaining the limit or target value within the relevant zone by the attainment date for the pollutant in question.

